# Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

**2010 mccc 8**

*Cyffredinol*

**19 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer–

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthiadau gwahanol ar achos, ardaloedd gwahanol, personau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o berson neu ddibenion gwahanol;

(b) i beri i ddarpariaeth wahanol fod yn gymwys ar adegau gwahanol;

(c) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(d) i wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, dros dro, trosiannol neu ddarpariaethau arbed fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(3) Caniateir i unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy orchymyn o dan y Mesur hwn gael ei gwneud drwy reoliadau.

(4) Caniateir i unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan y Mesur hwn gael ei gwneud drwy orchymyn.